Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Gofal Plant Flourish Cymru Childcare**

**Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant**
**Ffordd Cefn Yr Hendy Meisgyn**
**Pont-y-clun**
**CF72 8TL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddia terfynol heb ei
oddi



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/11/2022

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddidâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The*

*Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Gofal Plant Flourish Cymru Childcare

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Sesiynol |
| Darparwr Cofrestredig | Flourish.Cymru International Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru yw hwn |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

**Crynodeb**

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn Gofal Plant Flourish Cymru Childcare. Maent yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, yn gyfforddus ac wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol. Mae'r plant yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau a chwarae, a gallant fynd ar drywydd eu diddordebau eu hunain hefyd. Maent yn cael profiad o ryngweithio cadarnhaol ac yn cael llawer o anogaeth gan y staff.

Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael gofal da. Maent yn dilyn arferion glanhau a hylendid digonol ac yn atgoffa'r plant am gadw'n ddiogel. Mae'r staff yn dangos caredigrwydd, yn ymddwyn mewn ffordd gynnes ac yn ymgysylltu â'r plant mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn adnabod y plant, yn ymwybodol o'u hanghenion a'u dewisiadau ac yn sicrhau bod y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar. Maent yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd, gan adolygu a diweddaru eu polisïau a'u hasesiadau risg fel y bo angen. Mae amgylchedd y gwasanaeth wedi'i drefnu'n dda, sy'n galluogi'r plant i archwilio'n ddiogel yn ogystal â chynnig amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn gweithio'n gadarnhaol. Maent yn cwblhau prosesau hunanwerthuso gwerth chweil ac mae ganddynt broses recriwtio addas ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cefnogi eu staff ac yn eu datblygu ac maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

| **Llesiant** | **Digonol** |
|---|---|

Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus yn aml am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried ar y cyfan. Gallant ymuno â gweithgareddau neu ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn hyderus wrth symud yr adnoddau o un ardal i'r llall i gyd-fynd â'u chwarae. Er enghraifft, penderfynodd plentyn symud y toes chwarae i gegin yr ardal chwarae rôl i'w goginio yn y popty.

Mae'r plant yn cyffroi wrth ddod i'r gwasanaeth. Gwelsom rai o'r plant yn y bore yn neidio'n hapus a gwenu wrth i'r staff agor y glwyd i'w croesawu i mewn. Mae'r plant yn ymdopi â bod ar wahân am fod cyfnodau pontio dyddiol yn cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigol. Er enghraifft, roedd y plant yn cael cysur a chymorth gan y staff os oeddent yn teimlo'n drist. Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau. Er enghraifft, aeth y plant at y staff i roi cwtsh syrpreis iddynt ac eisteddodd plentyn arall ar lin aelod o'r staff i rannu llyfr.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gadarnhaol. Maent yn frwdfrydig i rannu eu teimladau ac ar dân i rannu newyddion â'r staff. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyddynnu'n dda, ac maent yn dangos diddordeb ac yn cymryd rhan ar y cyfan. Maent yn gyfarwydd ag arferion y gwasanaeth. Er enghraifft, roedd y plant yn gwybod ei bod hi'n amser tacluso pan roedd y gloch yn canu ac aethant i eistedd ar y carped ar ôl cael eu byrbryd heb unrhyw anogaeth. Mae'r plant yn dechrau mynegi empathi ac maent yn sensitif i anghenion eraill. Er enghraifft, gwelsom y plant yn helpu ei gilydd yn ystod amser byrbryd.

Mae'r plant yn cymryd rhan yn y chwarae a'r dysgu. Maent yn hyderus wrth archwilio'r amgylchedd ac yn mwynhau dewis eu chwarae. Er enghraifft, defnyddiodd plentyn gaead

sosban metel i greu ei offeryn cerdd ei hun. Maent yn cael dewis rhesymol o gyfleoedd priodol dan do ac yn yr awyr agored a gallant hefyd ymlacio a chael cyfnodau tawel.

Caiff y plant nifer o gyfleoedd i ddilyn eu greddf, eu syniadau a'u diddordebau eu hunain. Er enghraifft, dechreuodd y plant ymuno â'r 'disgo coch' cyn symud i ran arall o'r ystafell i chwarae yn yr ardal chwarae rôl, gan ddilyn eu dewisiadau. Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n rhoi ymdeimlad o gyflawni rhywbeth a hunan-barch iddynt. Er enghraifft, dangosodd y plant fwynhad wrth iddynt ddysgu sut i chwarae gêm 'Faint o'r gloch yw hi Mr Blaidd' ac roeddent yn falch o gael eu dewis i fod yn Mr Blaidd. Mae'r plant yn cael amrywiaeth o gyfleoedd sy'n addas ar gyfer eu hoedran/lefel datblygiad ac sy'n hyrwyddo eu datblygiad cyffredinol. Mae'r plant yn cael rhywfaint o gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth, gan eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, roedd y plant yn gosod eu cotiau a'u bagiau o dan luniau ohonynt eu hunain yn hyderus ac yn gallu golchi eu dwylo yn annibynnol. Dywedodd y plant eu bod yn mwynhau dod i'r gwasanaeth ac wrth eu boddau yn chwarae gyda'u ffrindiau.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae sawl aelod o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn am y broses o roi polisïau a gweithdrefnau ar waith a gweithio tuag at hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant. Maent yn atgoffa'r plant i fod yn ddiogel wrth chwarae neu archwilio. Er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant i gerdded o amgylch yr ystafell chwarae ac yn eu cefnogi wrth gymryd risgiau. Maent yn dilyn arferion hylendid digonol. Er enghraifft, maent yn annog y plant i olchi eu dwylo. Fodd bynnag, ni chaiff hyn ei wneud yn gyson. Er enghraifft, cafodd y byrddau eu glanhau a'u diheintio yn y bore, cyn amser byrbryd ond, nid cyn amser byrbryd yn y prynhawn. Mae'r staff yn annog y plant i fwyta'n iach ac i yfed, gan gynnig llaeth neu ddŵr iddynt fel rhan o'u byrbryd. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o'r hyn i'w wneud pe bai ganddynt bryderon am blentyn ac atebwyd senario amddiffyn plant yn hyderus. Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn plant.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Mae bron pob aelod o'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Er enghraifft, eisteddodd y staff gyda'r plant gan fynd ar eu gliniau i gyrraedd lefel y plant er mwyn siarad â nhw. Maent yn siarad â'r plant mewn modd cynnes a chyfeillgar ac yn eu hannog a'u canmol. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn ymateb yn gyson; maent yn gwrando ar farn y plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol, sy'n dangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn gwrando ar gwestiynau, ceisiadau a barn y plant, gan ymateb iddynt yn gadarnhaol.

Mae llawer o'r staff yn darparu amrywiaeth briodol o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn sicrhau bod yr ardaloedd chwarae yn darparu cyfleoedd chwarae a dysgu priodol. Mae llawer o'r staff yn dechrau cyfrannu at y Cwricwlwm newydd ac yn cynllunio ar ei gyfer. Maent yn cofnodi dewisiadau a barn y plant ynghyd ag ymgysylltiad y plant â gweithgaredd a'r camau nesaf ac yn cynnal asesiad syml o'r plant. Mae llawer o'r staff yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth ac i wneud pethau drostynt eu hunain. Mae llawer o'r staff yn gwybod pan fydd gan blant anghenion ychwanegol o bosibl. Maent yn rhoi cefnogaeth i'r rhieni os oes ganddynt unrhyw bryderon am ddatblygiad neu gynnydd y plant. Maent yn cymryd camau priodol ac yn defnyddio'r gwasanaethau cymorth.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan, ar y cyfan. Caiff yr amgylchedd dan do a'r amgylchedd yn yr awyr agored eu cloi yn ddiogel a defnyddir llyfr ymwelwyr. Maent yn cwblhau trefniadau glanhau sylfaenol sy'n adlewyrchu arferion hylendid boddhaol ac yn cofnodi'r tasgau dyddiol a wneir. Mae eu harferion rheoli heintiau digonol yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch cyffredinol y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cwblhau asesiadau boddhaol o'r risgiau cyffredinol a'r risgiau tân a gaiff eu hadolygu a'u gweithredu. Maent yn defnyddio rhestr wirio diogelwch ddyddiol ac yn cyflawni rhestr wirio bob hanner tymor i fonitro'r amgylchedd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod digon o le chwarae dan do yn yr amgylchedd er mwyn galluogi'r plant i symud yn rhydd y rhan fwyaf o'r amser. Mae gan y plant ystafell chwarae fawr a gallant ddefnyddio ardal chwarae awyr agored. Gall y plant chwarae mewn sawl ardal dan do, megis ardal adeiladu, ardal greadigol, ardal mathemateg ac ardal byd bach. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu llawer o anghenion y plant ac yn galluogi llawer ohonynt i gyrraedd eu llawn botensial. Er enghraifft, mae'r storfeydd lefel isel yn golygu y gall y plant gael gafael ar deganau ac adnoddau yn annibynnol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod unrhyw ofod chwarae awyr agored yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau y gall pob plentyn gael gafael ar ystod eang o ddodrefn, teganau â chyfarpar o ansawdd da sy'n briodol o ran oedran y plant. Mae byrddau, cadeiriau, toiledau a sinciau o faint addas ar gael i'r plant. Mae adnoddau i ennyn diddordeb a thanio dychymyg y plant ar gael. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnig adnoddau naturiol ac yn sicrhau bod gwaith y plant yn cael eu harddangos ar y waliau er mwyn dangos yr ymdeimlad o berthyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn trefnu'r amgylchedd yn briodol er mwyn iddo gynnig amrywiaeth foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas i'r rhan fwyaf o'r ystod oedran y gofelir amdanynt.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Digonol

Mae'r arweinyddiaeth yn y gwasanaeth hwn yn datblygu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol ac effeithiol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac sy'n cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt amrywiaeth o bolisïau da sy'n cael eu hadolygu'n aml ac maent yn sicrhau bod y rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. Fodd bynnag, ni chafodd y polisi newid cewynnau ei ddilyn yn gywir ac nid oedd y copïau diweddaraf o'r polisïau yn y ffeil polisi yn y gwasanaeth. Maent yn cadw cofnodion pwysig am y plant, megis contractau, damweiniau, digwyddiadau ac achosion o roi meddyginiaeth. Fodd bynnag, nid oedd lle ar gyfer llofnod y rhiant er mwyn nodi eu bod yn cydnabod bod y staff

wedi rhoi meddyginiaeth i'w plentyn. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwasanaeth wedi rhoi cofnod gweinyddu meddyginiaeth newydd ar waith sy'n cynnwys lle ar gyfer llofnod y rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac yn hysbysu AGC o'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau o bwys. Fodd bynnag, nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi hysbysu AGC o'r newid i staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwasanaeth wedi cwblhau'r hysbysiadau o newidiadau yn aelodau'r staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn cwblhau gwaith hunanwerthuso yn weithgar. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, staff a phartneriaid eraill ac yn gweithredu arnynt. Maent yn llunio adroddiad gwerth chweil sy'n ystyried eu blwyddyn flaenorol, y newidiadau y maent wedi eu gwneud, lle y byddant yn dymuno gwneud gwelliannau ac, i ryw raddau, sut y byddant yn mesur/monitro effeithiau'r newidiadau y maent am eu gwneud.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Mae ganddynt system briodol ar waith i sicrhau bod y staff yn addas. Fodd bynnag, nid oedd pob darn o dystiolaeth ar gyfer pob aelod o staff ar gael i'w arolygu. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod pob gwiriad addasrwydd staff ar waith. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda ac yn annog yr ymarferwyr i ymgymryd â hyfforddiant gorfodol. Ymgymerir â goruchwylio ac arfarniadau da. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y staff wedi cael sesiynau goruchwylio rheolaidd. Ers yr ymweliad arolygu, mae'r gwasanaeth wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau y caiff y staff eu defnyddio er mwyn bodloni'r cymarebau staffio cywir a diwallu anghenion y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn sicrhau bod y systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â'r rhieni yn ddigonol. Ar y cyfan, maent yn diweddaru'r rhieni drwy gynnig adborth ar lafar, ar e-bost neu drwy wasanaeth anfon negeseuon. Rhoddodd rhieni'r gwasanaeth adborth cadarnhaol iawn, gan ddweud eu bod wedi gweld eu plant yn datblygu a'u bod yn gallu siarad â'r staff ynghylch unrhyw bryderon a all fod ganddynt. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi datblygu cydberthnasau cadarnhaol â'r gymuned, rhanddeiliaid eraill a gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 – sicrhau bod y staff yn rhoi arferion hylendid da ar waith yn gyson

A2 – sicrhau y caiff y polisïau eu diweddaru a bod copi o'r polisïau diweddaraf yn ffeil y gwasanaeth

A3 – sicrhau bod y rhieni'n llofnodi'r ffurflen rhoi meddyginiaeth i gydnabod y cofnod A4

– sicrhau bod yr holl waith papur ar gael i'w harolygu.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

...ddia... terfynol heb ei
...gy...eddi

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi